Archwilio'r gallu i gyffwrdd

Trosolwg

Gall promptiau synhwyraidd syml helpu rhieni a gofalwyr i fanteisio ar eiliadau chwaraegar. Ceisiwch dynnu sylw at y synhwyrau drwy fannau a deunyddiau naturiol.

Gweithgareddau

Archwiliwch ardd y feithrinfa drwy'r gallu i gyffwrdd. Symudwch mewn gwahanol ffyrdd dros amrywiaeth o arwynebau; garw, llyfn, llithrig, crensiog. Dylai plant ac oedolion gael eu hannog i drafod sut yr ydym yn symud ar wahanol arwynebau. Sut yr ydym yn cerdded ar iâ? Beth am ardaloedd creigiog? Gwnewch hynny'n droednoeth ar ddiwrnodau cynhesach pan fydd asesiad risg wedi'i gynnal o'r arwynebau er mwyn chwilio am unrhyw beryglon. Bydd ein hymatebion yn newid gyda'r tywydd, felly rhowch gynnig ar wneud hynny ar ddiwrnodau gwlyb hefyd.



Offer

- Gardd y feithrinfa neu fan gwyrdd lleol
- Gall deunyddiau i symud yn droednoeth arnynt gael eu gosod mewn tybiau neu hambyrddau isel, er mwyn cynnig y math hwn o brofiad mewn mannau llai naturiol.

Cwestiynau allweddol

Sut mae'n teimlo? Ychwanegwch eiriau disgrifiadol newydd er mwyn helpu'r plant i wneud synnwyr o'r byd go iawn.
Am beth y mae'n eich atgoffa? Mae hynny'n helpu'r plant i gysylltu eu profiadau blaenorol â'u profiadau presennol.

Deilliannau dysgu

- Iechyd a lles – meithrin hyder mewn asesu risg yn ddeinamig a sut yr ydym yn symud ar wahanol arwynebau, gwydnwch i brofiadau newydd.
- Llythrennedd – sgiliau siarad a gwrando a defnyddio iaith ddisgrifiadol.

Symud y dysgu yn ei flaen

- Teimlwch wahanol ddail – mae rhai'n flewog, mae rhai'n llyfn, mae rhai'n bigog, mae rhai'n bluog. Gwnewch hynny ag unrhyw eitemau naturiol (cerrig, cregyn, brigau ac ati).
- Gorchuddiwch eich llygaid a theimlwch eich ffordd ar hyd cwrs rhaffau. Pa weadau y gallwch eu teimlo wrth fynd?